Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Dewi Sant

**Ham Lane East**
**Llanilltud Fawr**
**CF61 1TQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Dewi Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Dewi Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 223 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 177 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 29 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 15% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 15% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ebrill 2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Ionawr 2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/01/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch yn dda, ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae’r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol y dirprwy bennaeth, yn darparu arweiniad clir sy’n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i ddarparu ansawdd uchel o ofal a lles i ddisgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau’r disgyblion at ei gilydd ac oedolion. Mae balchder disgyblion o’u hardal leol a Chymru yn gryfder amlwg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w hoedrannau a’u cam datblygu yn llwyddiannus. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cyfathrebu, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn siarad yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen llyfrau yn ddeallus yn y ddwy iaith a gyda rhuglder cynyddol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dda. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson dros amser yn erbyn eu targedau a’u cyflawniadau blaenorol.

Lle mae’r addysgu’n fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn yr enghreifftiau hyn, maent yn cymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau sy’n darparu her i’w cefnogi i wneud cynnydd cadarn mewn gweithgareddau dysgu annibynnol. Lle nad yw’r addysgu cystal, prin yw’r cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ymgymryd â’u dysgu yn annibynnol, sydd yn ei dro yn arafu eu cynnydd.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn drwyadl. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi’r pennaeth a’r staff yn effeithiol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o’r cryfderau ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer gwella’r ysgol, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae cynnal perthynas ragweithiol â’r holl deuluoedd yn flaenoriaeth i’r pennaeth a’r staff. O ganlyniad, mae’r diwylliant o gydweithio byrlymus ac effeithiol yn cyfrannu'n sylweddol at ethos croesawgar a chynhwysol yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol

A2 Lledaenu’r arferion addysgu cryfaf ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sy'n cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu, ac eithrio yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyflym o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae disgyblion o grwpiau gwahanol, gan gynnwys disgyblion ag ADY, yn datblygu hyder cynyddol ac yn dyfalbarhau'n llwyddiannus â'u gweithgareddau.

Wrth i ddisgyblion aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn cyfathrebu'n hyderus ac aeddfed yn y ddwy iaith.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau adnabod llythrennau gan eu cysylltu â'u seiniau'n gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn eglur a gyda mynegiant priodol. Maent yn defnyddio dulliau ffoneg yn effeithiol i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg yn ddeallus a gyda rhuglder cynyddol. Maent yn dangos chwilfrydedd cynhenid wrth ddarllen testunau ac mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn darllen testunau estynedig yn hyderus. Mae ychydig yn meithrin uwch fedrau darllen yn fedrus wrth gyfeirio at elfennau o'r testun i gefnogi eu barn am y cymeriadau a digwyddiadau yn aeddfed.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau modur mân yn gadarn trwy wneud marciau a dechrau ysgrifennu llythrennau a geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau diddorol yn gynyddol annibynnol at wahanol bwrpasau. Er enghraifft, wrth iddynt ysgrifennu stori Cadi'r gath yn mynd am dro o amgylch y pentref. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus, ac erbyn brig yr ysgol, maent yn meddu ar fedrau cadarn mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ystod o ffurfiau ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu bywgraffiad o'r gantores gyfoes Eädyth Crawford a sgript am ddigwyddiadau protest Tryweryn yn fedrus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg yn briodol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu hymwybyddiaeth o rif yn dda wrth iddynt gyfrif a chyfateb rhifau â gwrthrychau. Maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth mewn amrywiol gyd-destunau mathemategol fel trin data ac arian, a siâp a mesur hyd a phwysau yn effeithiol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar y ddealltwriaeth gynnar hon yn effeithiol. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o'r pedair rheol sy'n eu galluogi i'w defnyddio'n effeithiol i ddatrys gwahanol broblemau. Mae'r mwyafrif yn cymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm yn bwrpasol, sy'n unol â'u cam datblygu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn didoli gwrthrychau gwyddonol ar siart cylch yn gywir a llwydda'r disgyblion hynaf i gasglu data er mwyn creu graff i arddangos ac adnabod patrymau yng nghyfraddau poblogaeth y dref leol yn fedrus.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau’n dda wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol sy’n hybu eu medrau llafar a datblygiad o rif. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu eu medrau’n bwrpasol trwy ddefnyddio pecyn arlunio i greu llun o flaidd manwl o stori Y Tri Mochyn Bach. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau’r rhan fwyaf yn adeiladu’n gyson ar ddysgu blaenorol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ap codio i greu gêm i’r disgyblion ieuengaf. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio’u medrau digidol yn hynod hyderus i gefnogi gweithgareddau ymchwil annibynnol ac i ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau. Mae’r disgyblion hynaf yn creu gwefannau atyniadol i ddathlu gwaith thema’r tymor. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglen gyflwyno i gynhyrchu gwaith amrywiol a ffilmio ymatebion i waith eu cyfoedion yn fwriadus. Mae disgyblion yn ymwybodol o sut i gadw’n ddiogel ar-lein ac yn medru trafod y rheolau’n  ddeallus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. O ganlyniad i amrywiaeth o brofiadau pwrpasol, maent yn dangos agwedd gadarnhaol at weithgareddau corfforol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o sesiynau dysgu a gweithgareddau dysgu ac allgyrsiol sy’n hybu eu hiechyd a’u lles yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn cydlynu sesiynau ffitrwydd i ddisgyblion eraill yn frwdfrydig ar brynhawn ‘Gwener Gwych’. Mae’r disgyblion ieuengaf yn ymroi’n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol, gan gynnwys beicio. Mae disgyblion Blwyddyn 1 - 6 yn elwa o brofiadau ysgogol yn yr awyr agored yn ystod sesiynau ‘Amser Antur’.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos creadigrwydd effeithiol wrth gyfansoddi cerddoriaeth gefndirol i ffilmiau yn seiliedig ar chwedlau Branwen a Gelert, er enghraifft. Maent yn datblygu eu medrau celf yn llwyddiannus mewn ystod berthnasol o weithgareddau sy’n cynnwys efelychu gwaith arlunwyr Cymreig enwog.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion yn teimlo’n falch o’u hysgol a’u cymuned. Maent yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion a’r oedolion sy’n gofalu amdanynt, gan siarad yn aeddfed a chwrtais gydag ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i drafod eu lles emosiynol a’u teimladau mewn sesiynau dysgu a chymorth penodol. Mae bron bob un yn ymwybodol ac yn hyderus bod staff ar gael i drafod neu rannu cyngor a chynhaliaeth yn fwriadus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol. Er enghraifft, cyn mynychu’r dosbarth, maent yn trafod unrhyw ofidiau o’r buarth ar ddiwedd amserau egwyl sy’n eu cefnogi i fod yn barod i ddysgu. Mae ymddygiad y rhan fwyaf yn dda mewn sesiynau dysgu, gan gynnwys parchu cyfraniadau eu cyfoedion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werthoedd, rheolau a dulliau gwobrwyo’r ysgol. Maent yn ymwybodol bod gwerthoedd yn elfen bwysig o fywyd yr ysgol, er enghraifft meithrin amynedd a dangos goddefgarwch at eraill.

Mae bron bob disgybl yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu sesiynau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn mwynhau gweithgareddau fel ‘Milltir y Dydd’ a menter ‘Gwener Gwych’ sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu lles corfforol a meddyliol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion

ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran dewis gofalus o fwyd ac yfed diodydd addas.

Mae disgyblion yn cynrychioli eu cyfoedion yn frwdfrydig ar wahanol gynghorau ac maent yn cyfrannu'n werthfawr at waith yr ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn falch iawn o'u gwaith a'u cyfraniadau diweddar. Er enghraifft, mae'r 'Dreigiau' yn gwella dulliau hyrwyddo siarad Cymraeg disgyblion trwy eu clodfori a chymryd rhan mewn cystadlaethau dosbarth. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi i'w gwaith yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau i gwblhau'r gweithgareddau yn y dosbarthiadau yn gyson. Mae llawer yn trafod eu gwaith a'u dysgu blaenorol yn hyderus. Maent yn falch wrth ymateb i adborth llafar athrawon a chynorthwywyr er mwyn gwella a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Wrth i ddisgyblion aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd derbyn ac ymateb i adborth gan eu cyfoedion ac athrawon. Maent yn parchu barn a chyfraniadau ei gilydd yn ystod sesiynau dysgu ac yn deall pwysigrwydd goddefgarwch, sy'n hyrwyddo ethos caredig yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos ymwybyddiaeth o nodweddion bod yn ffrind da a sut i helpu eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o hawliau plant ac maent yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymdrin â gwrth-fwlio yn llwyddiannus. Trwy hyn, mae bron bob disgybl yn falch o fod yn aelod o'r gymuned gynhwysol a chefnogol sy'n cyfrannu'n gadarn at eu profiad dysgu cyflawn yn yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn darparu cwricwlwm cyfoethog a phrofiadau sy'n sbarduno'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn ymgorffori gweledigaeth yr ysgol yn fwriadus ac yn cwmpasu holl agweddau dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae'r ethos o Gymreictod yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm sy'n plethu drwy bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol trwy drefnu ymweliadau addysgol i ddisgyblion i fannau addysgol diddorol a thrwy ddefnyddio arbenigedd ymwelwyr. Er enghraifft, mae athrawon yn gwahodd hanesydd lleol i gefnogi dysgu'r disgyblion am fywyd yn Llanilltud Fawr yn Oes y Tuduriaid. At ei gilydd, mae cyfleoedd priodol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain sy'n cynnwys cynnig syniadau ar gychwyn themâu newydd. O ganlyniad, maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad ym medrau disgyblion. Ar y cyfan, mae athrawon yn creu amgylcheddau dysgu pwrpasol lle mae disgyblion yn meithrin eu dychymyg, yn datblygu eu medrau datrys problemau, ac yn archwilio a darganfod drostynt eu hunain. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae'r profiadau dysgu yn galluogi'r disgyblion i ymarfer a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a ddigidol yn fwriadus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn cefnogi'r disgyblion hynaf yn effeithiol wrth iddynt gynhyrchu papur newydd 'Llais y Ddraig' sy'n cael ei gyhoeddi a'i

werthu'n dymhorol. Er hyn, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau sy'n eu herio'n  ddigon effeithiol. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth yn caniatáu i leiafrif y disgyblion gyflawni hyd orau eu gallu mewn gweithgareddau dysgu annibynnol, yn enwedig yn yr amgylchedd dysgu allanol.

Mae'r amgylchedd dysgu ysgogol yn cynnig awyrgylch cartrefol i'r disgyblion ddysgu. Mae perthynas waith hynod o gadarnhaol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Mae gan athrawon ddisgwyliadau ymddygiad uchel o bob disgybl sy'n meithrin eu parch a'u cwrteisi'n llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o ddulliau gwobrwyo i ddathlu ymdrech ac agweddau cadarnhaol disgyblion. Mae bron bob un o'r staff yn defnyddio iaith raenus yn effeithiol wrth gyfathrebu â disgyblion. Caiff disgyblion eu hannog i siarad Cymraeg yn gynyddol gywir mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn yr enghreifftiau hyn, maent yn gweithio'n annibynnol wrth gymhwyso eu medrau'n effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol er mwyn herio ac arwain y disgyblion at y camau nesaf yn eu dysgu. Yn ogystal, gwneir defnydd effeithiol o ddulliau sy'n hybu'r disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu yn gynyddol annibynnol.

Darperir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion drafod eu gwaith, er enghraifft wrth iddynt ymateb i ddisgwyliadau ar gyfer eu tasgau. Mae llawer o athrawon a chynorthwywyr yn cefnogi anghenion disgyblion yn ddiwyd, ac yn dechrau datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol drwy ddulliau holi treiddgar. Lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau dysgu heriol sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth yn ddigon da.

Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion fyfyrio ar eu cynnydd unigol yn ogystal ag asesu cyflawniadau eu cyfoedion. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion adalw ac adfyfyrio ar ddysgu blaenorol a chynnig cyfleoedd effeithiol iddynt wirio'u gwaith yn gyson. Mae hyn yn elfen nodedig o'r addysgu a'r dysgu yn y dosbarthiadau hyn. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn gynhwysfawr ac yn adrodd yn effeithiol ar gynnydd, yn cynnwys sylwadau y disgybl, yn manylu ar brofiadau'r flwyddyn ac yn cyflwyno agweddau synhwyrol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar. Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn effeithiol. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu hapusrwydd a'u lles. Mae staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd ynghyd â lles emosiynol disgyblion yn allweddol i'w gwaith.

Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol y disgyblion a'u teuluoedd yn llwyddiannus drwy ystod o weithgareddau pwrpasol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i ddisgyblion drafod a chofnodi unrhyw gonsyrn yn ddyddiol, ac mae staff yn ymateb iddynt yn amserol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ag ADY. Mae'r cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cyflawni ei rôl yn drylwyr sy'n ei galluogi i adnabod anghenion addysgol a lles disgyblion yn gynnar. O ganlyniad i gynllunio manwl y ddarpariaeth, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn fuddiol. Mae'r CADY yn cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol gan dderbyn a gweithredu ar arweiniad a chyngor arbenigol i gefnogi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae staff allweddol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ynglŷn â threfniadau ADY, gan gynnwys y disgyblion sy'n rhan ganolog o'r broses. Mae gan staff drefniadau addas ar gyfer adnabod cynnydd disgyblion ADY sy'n ymwneud â'u camau datblygu a'u hanghenion unigol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol â'u dysgu neu agweddau o les yn gwneud cynnydd cyson.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant yn dda. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol a'r gymuned leol. Mae staff yn trefnu ymweliadau cyson ac yn darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer croesawu ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi eu profiadau dysgu. Er enghraifft, mae staff yn trefnu i ddisgyblion ymweld â thraeth cyfagos i ddysgu am nodweddion daearyddol ac am hanes a thraddodiadau'r adeiladau lleol.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac yn annog ffitrwydd corfforol trwy gynnig amrediad o weithgareddau corfforol, sy'n cynnwys clybiau chwaraeon. Mae staff yn trefnu a darparu ystod o weithgareddau awyr agored yn dda. Er enghraifft, mae'r sesiynau 'Amser Antur' yn hyrwyddo disgyblion i gydweithio mewn gweithgareddau diddorol sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a mwynhad at ddysgu. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau o fyw'n iach ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Caiff agweddau ysbrydol a moesol disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol drwy gyfnodau myfyrio a gwasanaethau addoli ar y cyd. Cynhelir gwasanaethau cyson sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt. Mae trafod gwerthoedd a hawliau plant yn rhan annatod o'r gwasanaethau. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau eraill yn dda.

Mae staff yn datblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am yr ysgol drwy eu haelodaeth ar y cynghorau ysgol. Darperir cyfleoedd addas iddynt fynegi barn am sut i wella gwahanol agweddau o'r ysgol, a chyfleoedd amrywiol i lawer gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd fel cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon lleol, a chystadlu a pherfformio mewn Eisteddfodau sy'n datblygu eu hunanhyder a'u medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i alluogi disgyblion i gadw eu hunain yn ddiogel wrth ddysgu ar-lein. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb ar gynnydd eleni.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth, gyda chefnogaeth werthfawr y dirprwy bennaeth, yn darparu arweinyddiaeth gadarn i’r ysgol sy’n sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol a diwylliant agored sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddynt weledigaeth glir sy’n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion, eu teuluoedd a staff yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol. Maent yn rhannu’r weledigaeth hon â’r staff, y disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, ac o gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae’r disgwyliadau i fod ‘yn barod, yn barchus ac yn ddiogel’ yn greiddiol i holl weithgarwch yr ysgol.

Mae systemau arweinyddiaeth wedi’u sefydlu ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol, yn cyflawni eu rolau’n  drylwyr, ac yn cefnogi’r pennaeth yn gynhaliol. Mae arweinwyr yn cynllunio’n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys lleihau effaith tlodi ar ddisgyblion trwy fabwysiadu trefniadau gwisg ysgol newydd sy’n arbed costau i rieni.

Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i’r afael â datblygiadau addysg diweddar. Er enghraifft, maent wedi gwreiddio egwyddorion a disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru yn briodol, yn arbrofi â dulliau addysgeg cyfredol ac yn gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yr ysgol gyfan yn rhoi pwyslais amlwg ar hybu’r Gymraeg a Chymreictod, ac mae hyn yn ei dro yn datblygu balchder disgyblion at eu hiaith a’u treftadaeth.

Mae’r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae’r trefniadau effeithiol yn adolygu cynnydd, nodi meysydd i’w gwella ac yn amlinellu camau rhesymol i’w gweithredu er mwyn datblygu’r ysgol ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o gynnydd a deilliannau disgyblion, craffu ar eu gwaith ac arsylwi sesiynau dysgu. Mae staff yn cymryd rhan gynhwysol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i’r afael â rhan fwyaf o’r gwelliannau’n llwyddiannus.

Cynhelir sesiynau rheolaidd i staff drefnu a gweithredu gweithgareddau i gyflawni’r blaenoriaethau cytûn. Mae gan yr athrawon gyfrifoldeb am arwain ar ddatblygu maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm. Mae cynorthwywyr yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac maent yn cyfrannu’n fwriadus at wella cyflawniadau dysgu, lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar safonau a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau’n gydwybodol ac wedi dechrau cynnal ymweliadau pwrpasol a gweithgareddau i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Maent yn herio’r ysgol ar faterion addas yn synhwyrol ac yn cyfrannu’n briodol i lunio gweithdrefnau clir er mwyn gwella. Maent yn cydweithio’n achlysurol â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta iach ac yfed rheolaidd.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r gyllideb i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu’r gwariant yn briodol â blaenoriaethau gwella ac yn monitro’r cyllid yn ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohono. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant datblygu

disgyblion sy’n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion.

Nodwedd gref o’r arweinyddiaeth yw’r cyfleoedd pwrpasol a ddarperir i’r holl staff i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd iddynt gael hyfforddiant pwrpasol am ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru, a sesiynau i ddyfnhau eu dealltwriaeth o ddulliau addysgeg effeithiol, er enghraifft. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn fwriadus ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar barhau i wella safonau disgyblion. Mae’r trefniadau’n cynnwys cyfleoedd bwriadus i’r holl staff werthuso’r flwyddyn academaidd flaenorol cyn ystyried y camau datblygu ar gyfer y dyfodol. Mae’r pennaeth yn cefnogi athrawon i ymchwilio i agweddau o’u harferion addysgu er mwyn adnabod effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion. Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â’r ysgol uwchradd a gweddill ysgolion y clwstwr sy’n cynnwys llunio cynlluniau strategol ar gyfer cyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a datblygu dulliau asesu perthnasol.

Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn gadarn. Mae’r pennaeth a’r staff yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau dyddiol yr ysgol. Mae staff yn meithrin perthynas ragweithiol â’r holl deuluoedd sy’n cyfrannu’n sylweddol at yr ethos croesawgar a chynhwysol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/04/2024